Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2010**

**Dyddiad:** **4 Mawrth 2010**

**Gan:** **Alun Ffred Jones, Y Gweinidog dros Dreftadaeth**

Bydd Aelodau yn dymuno nodi y cyhoeddir Mesur arfaethedig y Gymraeg (Cymru) heddiw, 4 Mawrth 2010. Byddaf yn gwneud Datganiad Deddfwriaethol yn y cyfarfod llawn yr wythnos nesaf i gyflwyno'r Mesur arfaethedig.

Bydd y Mesur arfaethedig yn gosod fframwaith deddfwriaethol newydd gogyfer â hyrwyddo'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd yng Nghymru. Bydd yn elwa o'r profiad a gaed dros y ddau ddegawd diwethaf er mwyn diweddaru a chryfhau'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r defnydd a wneir o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau allweddol ar gyfer pobl Cymru. Trwy greu fframwaith deddfwriaethol newydd cadarn, bydd darpariaethau'r Mesur yn gonglfaen i ymrwymiad ehangach y Llywodraeth tuag at ddatblygu Cymru ddwyieithog.

Bydd y Mesur yn gwneud darpariaethau mewn pedwar maes allweddol:

Yn unol ag ymrwymiadau Cymru'n Un, bydd y Mesur arfaethedig yn cynnwys darpariaethau a fwriedir i gadarnhau statws swyddogol y Gymraeg. Y bwriad yw darparu arwydd clir ynglŷn â'r statws y mae'r iaith yn ei fwynhau ac a fydd yn ei fwynhau yng Nghymru.

Bydd y Mesur yn sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg. Bydd gan y Comisiynydd swyddogaethau a phwerau eang i hybu a hwyluso defnyddio'r iaith

ac i hybu cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd y Comisiynydd yn derbyn cymorth gan Banel Cynghori a fydd â rôl strategol ond na fydd yn ymwneud â materion beunyddiol. Ar ôl penodi'r Comisiynydd bydd ef neu hi'n cymryd cyfrifoldeb am y gwaith a wneir ar hyn o bryd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd y Mesur hefyd yn rhoi'r hyblygrwydd i ganiatáu i rai o swyddogaethau'r Bwrdd gael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru pe baem yn ystyried bod hynny'n briodol.

Yn drydydd bydd darpariaeth yn y Mesur fydd yn golygu, dros gyfnod o amser, bod cynlluniau iaith yn cael eu disodli gan safonau ar gyfer y Gymraeg. Ein bwriad yw bod y safonau'n symleiddio'r broses o osod dyletswyddau ar gyrff, gan gyflwyno mwy o gysondeb o fewn ac ar draws sectorau. Byddant hefyd yn adeiladu ar y lefel o wasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ar hyn o bryd ac yn helpu i egluro i siaradwyr Cymraeg y lefel o wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn. Bydd y safonau, i bob perwyl, yn creu hawliau i siaradwyr Cymraeg yng nghyswllt gwasanaethau a ddarperir. Bydd gan y Comisiynydd bwerau gorfodi mwy grymus na'r rhai sydd gan Fwrdd yr Iaith. Gellir apelio yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd yn gysylltiedig â gosod neu orfodi safonau gerbron Tribiwnlys newydd ar gyfer y Gymraeg.

Yn olaf mae'r Mesur arfaethedig yn rhoi'r pŵer i'r Comisiynydd ymchwilio i gwynion gan siaradwyr Cymraeg sy'n credu yr ymyrrwyd â'u rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd gyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith o ran diogelu'r rhyddid hwnnw.

Mae'r ugain mlynedd diwethaf wedi dangos yn glir iawn y manteision o gael fframwaith deddfwriaethol sy'n sylfaen i gefnogaeth y Llywodraeth tuag at yr iaith. Maent hefyd wedi dangos pwysigrwydd cael eiriolwr cryf dros yr iaith sy'n annibynnol ar unrhyw Lywodraeth. Rydym o'r farn mai dyma'r amser iawn i gryfhau'r fframwaith deddfwriaethol hwnnw ac i gyflwyno eiriolydd cryfach fyth dros yr iaith.

Mae'r darpariaethau a gynhwysir yn y Mesur arfaethedig yn gosod sylfeini hanfodol fydd yn tanategu polisïau ehangach y Llywodraeth hon ar gyfer y

Gymraeg.  Maent yn rhoi neges glir ynglŷn â'n hymrwymiad yn y maes hwn. Mae'r rhain yn gynigion pwyllog a synhwyrol, wedi'u llunio i sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i ffynnu.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi dros y misoedd nesaf pan fydd craffu ar y Mesur arfaethedig.